**EITEM AR YR AGENDA: 13**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**23ain Hydref 2006**

**Dileu Dyled Ddrwg**

**Adroddiad gan Ken Finch,**
**Trysorydd i'r Awdurdod**

**Diben yr Adroddiad**

**1.** Rhoi'r diweddaraf i'r aelodau, a cheisio eu cymeradwyaeth i ddileu dyled ddrwg yn unol â Rheoliadau Ariannol yr Awdurdod.

**Cefndir**

**2.** Yn y cyfarfod diwethaf rhoddwyd adroddiad i'r aelodau yn amlinellu'r ddyled am Wasanaeth Arbennig oedd yn weddill sef £2895.20. Roedd y cwmni dan sylw wedi cael ei ddiddymu ar Chwefror 28ain 2006.

**3.** Gofynnodd yr aelodau i ymholiadau gael eu gwneud i weld a ellid adfer y ddyled o elw gwerthu'r safle cyn i'r Awdurdod benderfynu cymeradwyo dileu'r ddyled.

**Gwybodaeth**

**4.** Edrychwyd ar y mater ac yn erbyn y cwmni cyfyngedig oedd yn berchen ar y busnes a'r safle dan sylw yr oedd y ddyled wedi ei chodi, ac felly ni ellir cymryd unrhyw gamau eraill i'w hadfer.

**Gwybodaeth** *(parhad)*

**5.** Tra'n ystyried y mater hwn efallai y dymunai'r Aelodau nodi mai'r trothwy presennol yn y Rheoliadau Ariannol, a benodwyd ym 1995, ar gyfer adrodd am ddileu dyled na ellir ei hadfer yw unrhyw ddyled sydd yn werth mwy na £1000. Ymddengys y trothwy hwn yn isel iawn ac, er fod dyledion drwg yn erbyn yr Awdurdod Tân ac Achub yn brin, argymhellir y byddai'n briodol i godi'r trothwy hwn.

**Argymhellion**

**6.** Bod yr Aelodau'n

**6.1** Cymeradwyo dileu'r ddyled fel un anadferadwy fel sydd yn Rheol 14.10 o Reoliadau Ariannol yr Awdurdod.

**6.2** Yn cymeradwyo codi'r trothwy ar gyfer adrodd am ddileu dyledion na ellir eu hadfer i'r Awdurdod Tân ac Achub i £5000 ac yn unol â'r newid hwn i wneud y newidiadau priodol i'r Rheoliadau Ariannol.